

# Arolygiad Gwasanaeth Iechyd Meddwl (Dirybudd) Neuadd Tŷ Gwyn, Elysium Healthcare

Dyddiad yr Arolygiad: 11 – 12 Ionawr 2017

Dyddiad Cyhoeddi: 13 Ebrill 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy:

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	4
3.	Crynodeb .....	5
4.	Canfyddiadau .....	7
	Ansawdd profiad y claf .....	7
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .....	13
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	23
5.	Y camau nesaf .....	29
6.	Methodoleg .....	30
	Atodiad A.....	32

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol o'r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwellu profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Neuadd Tŷ Gwyn, Llandeilo Bertholau, y Fenni, NP7 6NY (ysbyty iechyd meddwl), sy'n rhan o Elysium Healthcare, ar 11 – 12 Ionawr 2017. Ymwelwyd â holl wardiau'r ysbyty yn ystod yr arolygiad hwn, a oedd yn cynnwys:

- Tŷ Gwyn
- Skirrid View
- Tŷ Pentwyn

Roedd ein tîm arolygu yn cynnwys dau reolwr arolygu AGIC (arweiniwyd yr arolygiad gan un ohonynt), dau adolygydd cymheiriaid clinigol (yr adolygydd Deddf Iechyd Meddwl enwebedig oedd un ohonynt), ac un adolygydd lleyg.

Yn ystod yr arolygiad hwn, adolygwyd dogfennau gennym ar gyfer cleifion a oedd yn cael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn asesu cydymffurfiad â'r Ddeddf.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau yn dilyn yr arolygiad o wasanaeth iechyd meddwl annibynnol. Mae AGIC yn gyfrifol am gofrestru ac arolygu gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ysbytai annibynnol, clinigau annibynnol, ac asiantaethau meddygol annibynnol.

Mae rhagor o fanylion am ein dull o arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol ar gael yn Adran 6.

## 2. Cyd-destun

Mae Neuadd Tŷ Gwyn yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl yn ardal y Fenni, Sir Fynwy, ar hyn o bryd. Ar adeg ein harolygiad, roedd Neuadd Tŷ Gwyn yn cael ei drosglwyddo i gwmni newydd (darparwr cofrestredig), sef Elysium Healthcare. Mae Neuadd Tŷ Gwyn yn rhan o wasanaethau adsefydlu o fewn Elysium Healthcare.

Mae Neuadd Tŷ Gwyn yn darparu'r canlynol, fel yr amlinellir yn ei amodau cofrestru:

- Tŷ Gwyn (uned adsefydlu rhywiau cymysg 18 gwely)
- Skirrid View (uned asesu rhywiau cymysg 12 gwely)
- Tŷ Pentwyn (uned gofal llai dwys rhywiau cymysg pedwar gwely)

Roedd 28 o gleifion yno ar adeg yr arolygiad.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm staff sy'n cynnwys un rheolwr cofrestredig, un rheolwr gwasanaethau clinigol, un rheolwr ward, meddyg ymgynghorol sy'n gweithredu fel y clinigydd cyfrifol hefyd, meddyg arbenigol, un seicolegydd ffforensig ac un seicotherapydd integreiddiol, dau therapydd galwedigaethol a phedwar cynorthwydd therapi galwedigaethol, un therapydd cerddoriaeth, ac un gweithiwr cymdeithasol ysbyty. Mae'r timau ward yn cynnwys nyrsys cofrestredig a chynorthwywyr gofal iechyd. Ceir tîm o staff gwasanaethau cymorth, cadw tŷ a gweinyddol hefyd.

Mae Neuadd Tŷ Gwyn hefyd wedi ymgysylltu â gwasanaethau cymunedol lleol ar gyfer iechyd a llesiant corfforol y cleifion, sy'n cynnwys meddygfeydd teulu, deintyddion ac optegwyr.

### 3. Crynodeb

Canfuwyd gennym yn gyffredinol fod Neuadd Tŷ Gwyn yn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Dyma a ganfuwyd gennym fod y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y cleifion i ni siarad â nhw yn hapus gyda safon y driniaeth a'r gofal a ddarperir. Gwelwyd rhyngweithio parchus â phwyslais ar y claf wrth ddarparu gofal.
- Roedd y staff i ni siarad â nhw yn hapus yn eu swyddi, yn deall eu cyfrifoldebau, ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwyr.
- Roedd polisiau, gweithdrefnau ac asesiadau risg trylwyr i hybu amgylchedd diogel.
- Er bod yr ysbyty yn mynd trwy gyfnod o newid, oherwydd newidiadau i'r perchnogion, roedd y staff yn eglur am eu sail werthoedd ac nid oedd hyn wedi effeithio ar eu darpariaeth o ofal a thriniaeth cleifion.

Dyma'r hyn yr ydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth ei wella:

- Mae angen gwneud gwelliannau sylweddol i nifer o agweddau ar ddogfennau cleifion a chadw nodiadau, gan gynnwys cynlluniau gofal a thriniaeth, ffurflenni digwyddiadau, asesiadau nyrsio ac asesiadau risg.
- Mae angen trosglwyddo systemau TG a rheoli cofnodion i systemau'r darparwr cofrestredig newydd i sicrhau bod systemau'n cefnogi'r ddarpariaeth o ofal cleifion yn effeithiol.
- Er bod rhaglen ailwampio barhaus ar waith a bod yr amgylchedd yn braf ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, roedd agweddau yr oedd angen eu hadolygu. Er enghraifft, mae angen rhoi sylw i'r man amldefnydd yn Nhŷ Gwyn o ystafell glinig/rheoli meddyginiaethau/derbynfa i sicrhau bod cleifion yn cael preifatrwydd ac urddas.

Nodwyd y meysydd rheoleiddio canlynol i'w gwella gennym yn ystod yr arolygiad hwn:

- Diwygiadau i'r Datganiad o Ddiben a'r Canllaw i Gleifion

- Cwblhau datganiadau blynyddol ac ymweliadau darparwr cofrestredig chwe misol
- Mae angen diweddarau polisïau a gweithdrefnau oherwydd y newid i'r darparwr cofrestredig
- Sicrhau mai'r tystysgrifau AGIC sydd wedi'u harddangos yw'r fersiynau diweddaraf
- Penodi Unigolyn Cyfrifol o dan y darparwr cofrestredig newydd

Er nad yw hyn wedi arwain at gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, ceir disgwyliad y bydd y darparwr cofrestredig yn cymryd camau ystyrlon i roi sylw i'r materion hyn, gan y gallai methiant i wneud hynny arwain at ddiffyg cydymffurfiad â'r rheoliadau.



## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd profiad y claf*

**Roedd bodlonrwydd cleifion â Neuadd Tŷ Gwyn yn uchel yn gyffredinol. Gwelsom staff yn trin cleifion gyda pharch wrth ddarparu gofal asesu ac adsefydlu unigoledd i'r cleifion.**

**Gwelsom fod y staff yn sicrhau hawliau'r cleifion ac yn canolbwyntio ar yr unigol o ran eu dull. Roedd anghenion cyfredol cleifion yn cael eu diwallu gan y tîm staff, a oedd yn darparu gofal, triniaeth a gweithgareddau priodol yn yr ysbyty ac yn y gymuned.**

**Roedd angen gwella systemau cofnodion cleifion i sicrhau bod y gofal sy'n cael ei ddarparu'n ymarferol wedi ei arddangos yn briodol mewn cofnodion.**

**Roedd angen diweddarau agweddau ar y Canllaw i Gleifion i sicrhau ei fod yn bodloni'r gofynion rheoleiddio.**

Cawsom sgrysiâu â nifer o gleifion yn anffurfiol yn ystod ein harolygiad am y gofal a ddarperir, a gofynnwyd hefyd i'r cleifion gwblhau holiaduron AGIC er mwyn cael adborth ffurfiol. Cwblhawyd cyfanswm o naw holiadur. Roedd bodlonrwydd cleifion yn uchel yn gyffredinol. Roedd y cleifion yn gadarnhaol am eu perthynas gyda'r staff a'r gweithgareddau a gynigir, ac fe'n hysbyswyd ganddynt eu bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal a'u triniaeth. Pan wnaethpwyd sylwadau negyddol gan gleifion neu pan oedd ganddynt bryderon unigol am eu gofal, rhoddwyd sylw i'r rhain gyda'r rheolwr cofrestredig, a wnaeth eu datrys yn ystod yr arolygiad. Mae rhagor o fanylion o'r holiaduron wedi eu cynnwys trwy gydol yr adroddiad.

Roedd rhai sylwadau yn cynnwys:

*“Mae'r staff yn wych a byddant yn gwneud unrhyw beth i chi. Mae'r gwasanaeth yn rhagorol. Bob amser yn rhoi amser i esbonio pethau. Tryloywder da rhwng cynorthwyywyr gofal iechyd, nyrsys, staff clinigol.”*

*“Byddwn yn hoffi dewis mwy amrywiol o fwyd a gwell ansawdd.”*

*“Wrth fy modd yma.”*

*“Mae'r glanhawyr yn glên ac yn barchus iawn.”*

*“Bob amser yno pan fydd angen sgwrs arnoch. Wrth fy modd gyda’r ystafell. Mynediad da at weithgareddau therapi galwedigaethol.”*

*“Yr ysbyty gorau sydd yna. Cartrefol.”*

### **Hybu, diogelu a gwella iechyd**

Canfuwyd gennym fod iechyd yn cael ei hybu a’i ddiogelu gan y gwasanaeth.

Dywedodd y cleifion wrthym am weithgareddau hybu iechyd yr oeddent yn cymryd rhan ynddynt, fel rhaglenni colli pwysau ac ymarfer corff. Roedd staff yr ysbyty yn rhedeg ac yn cefnogi’r rhaglenni hyn, gyda mewnbwn penodol gan staff therapi galwedigaethol. Gwelsom wybodaeth hybu iechyd wedi’i harddangos ar draws yr ysbyty hefyd.

Roedd y cleifion yn gallu cael mynediad at wasanaethau meddygon teulu a deintyddion yn ôl y gofyn ac ni hysbyswyd unrhyw oedi sylweddol ganddynt wrth aros am yr apwyntiadau hyn. Roedd y staff meddygol wedi cychwyn clinigau iechyd corfforol dwywaith yr wythnos yn ddiweddar, fel ffordd ychwanegol o asesu a monitro pob agwedd gorfforol ar iechyd cleifion, a oedd yn arfer arbennig o nodedig.

### **Urddas a pharch**

Canfuwyd gennym fod cleifion yn cael eu trin gydag urddas a pharch gan y staff.

Dywedodd yr holl gleifion wrthym eu bod yn teimlo bod eu preifatrwydd a’u hurddas yn cael eu parchu a’u cynnal. Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn teimlo bod y staff yn gwrandao arnynt ac yn ymateb i’w dymuniadau. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom y staff yn trin y cleifion gyda pharch ac yn ymateb i’w hanghenion unigol mewn ffyrdd caredig a gofalgar. Gwelsom fod y staff yn gofyn am ganiatâd cleifion cyn mynd i mewn i ystafelloedd neu cyn caniatáu i’r tîm arolygu fod yn bresennol mewn cyfarfodydd.

Roedd polisi preifatrwydd ac urddas ar waith ac roedd Datganiad o Ddiben y darparwr cofrestredig hefyd yn disgrifio sut y byddai staff yr ysbyty yn cynorthwyo’r cleifion mewn ffyrdd a fyddai’n cynnal eu preifatrwydd a’u hurddas. Datgelodd trafodaethau gyda’r rheolwr cofrestredig a’r Tîm Amlddisgyblaeth y pwyslais sylweddol ar gynnwys cleifion a’u teuluoedd/cynrychiolwyr mewn gofal o ddydd i ddydd a’r broses o redeg y gwasanaeth.

Roedd gan y cleifion eu hystafelloedd gwely eu hunain â chyfleusterau en-suite (Tŷ Gwyn a Skirrid View) neu adrannau ystafelloedd ymolchi un rhyw (Tŷ Pentwyn). Roedd manau cymunedol ac ymwelwyr y gallai'r cleifion eu defnyddio pan oedd eu hangen neu pan oeddent yn dewis gwneud hynny. Roedd y cleifion yn gallu personoli eu hystafelloedd eu hunain ac roedd ganddynt le storio digonol ar gyfer eu heiddo. Roedd gan y cleifion eu hallweddau eu hunain ar gyfer eu hystafelloedd gwely fel y gallent eu cloi a chael mynediad atynt yn rhydd; roedd y staff yn gallu agor y cloeon os oedd angen.

### **Gwybodaeth a chaniatâd cleifion**

Roedd manau lle'r oedd gwybodaeth gyfredol ar gyfer cleifion wedi ei harddangos yn eglur ar gyfer cleifion drwy'r ysbyty cyfan. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth statudol fel gwybodaeth hawdd ei darllen am hawliau claf o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a sut i gael gafael ar gyngor cyfreithiol i ddatblygu eu hapeliadau yn erbyn y penderfyniad i'w cadw. Roedd arddangosiadau hefyd yn cynnwys gwybodaeth am weithrediad yr ysbyty a gweithgareddau/digwyddiadau a oedd yn cael eu cynnal yn yr ysbyty a'r gymuned.

Roedd y Canllaw i Gleifion yn darparu'r rhan fwyaf o'r wybodaeth hanfodol i gleifion sy'n aros yno ac yn cynnig gwybodaeth eglur am hawliau cleifion a'r hyn y gallai cleifion ei ddisgwyl gan y gwasanaeth. Roedd angen gwneud rhai diwygiadau er mwyn sicrhau bod y Canllaw i Gleifion yn cydymffurfio â'r rheoliadau'n llawn.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r Canllaw i Gleifion gynnwys yr holl wybodaeth fel y'i rhestrir o dan Rheoliad 7. Mae'n rhaid i Ganllaw i Gleifion cyfredol y gwasanaeth gael ei ddiweddarau i gynnwys:***

- ***Y telerau ac amodau o ran gwasanaethau i'w darparu ar gyfer cleifion, gan gynnwys y swm a'r dull talu ffioedd gan gleifion am bob agwedd ar eu triniaeth (Rheoliad 7b)***
- ***Crynodeb o'r weithdrefn gwynion (Rheoliad 7d)***
- ***Crynodeb o safbwyntiau cleifion ac eraill a dderbyniwyd (Rheoliad 7e)***

- ***Yr adroddiad arolygu diweddaraf a baratowyd gan yr awdurdod cofrestru neu wybodaeth am sut i gael gafael ar gopi o'r adroddiad hwnnw (Rheoliad 7g)***

Dywedodd yr holl gleifion wrthym eu bod yn teimlo bod eu meddyg yn gwranddo arnynt yn ystod trafodaethau am eu triniaeth, a'u bod yn derbyn gwybodaeth ddigonol i wneud penderfyniad cytbwys. Dywedodd yr holl gleifion i ni siarad â nhw eu bod wedi cymryd rhan yn eu gofal ac wedi llofnodi eu cynlluniau gofal.

Darparwyd gwybodaeth i'r cleifion yn ysgrifenedig a chawsom ein sicrhau bod y staff yn trafod y wybodaeth hon gyda'r cleifion gan fod y cleifion wedi cadarnhau hyn. Fodd bynnag, roedd yn anodd dod o hyd i dystiolaeth o hyn mewn cofnodion cleifion oherwydd gwybodaeth anghyflawn yn y cofnodion gofal i ni eu hadolygu. Yng nghofnod un claf, er enghraifft, roedd y staff wedi nodi nad oedd y claf yn deall ei gynllun gofal, ond nid oedd y staff wedi cofnodi pa un a oedd dulliau eraill wedi cael eu defnyddio i gynorthwyo'r claf i ddeall.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r staff gofnodi yn gyson ac yn gywir sut y maent yn darparu gwybodaeth i gleifion a sut y maent yn ymdrechu i gynorthwyo cleifion i ddeall gwybodaeth.***

Roedd yn anodd dod o hyd i wybodaeth am gapasiti, caniatâd a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yng nghofnodion y cleifion. Roedd hon wedi ei chynnwys yng nghofnodion cyfarfodydd y Tîm Aml-ddisgyblaeth yn hytrach nag wedi'i nodi mewn man oedd yn amlwg yn hygyrch. Rhoddir sylw i welliannau o ran trefn cofnodion isod. Edrychwyd ar ddogfennau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid tri chlaf a chanfuwyd gennym fod asesiadau ac awdurdodiadau yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu yn unol ag amserlenni penodedig. Roedd y cleifion wedi cael eu hysbysu am eu hawl i adolygiad.

### **Cyfathrebu'n effeithiol**

Gwelsom fod y staff yn cymryd amser a gofal i gyfathrebu â'r cleifion yn effeithiol. Gwelsom staff yn cymryd amser i gynnal trafodaethau gan ddefnyddio geiriau ac iaith a oedd yn addas ar gyfer y claf unigol.

Gwelsom fod deunydd hawdd ei ddarllen ar gael a dywedodd y staff wrthym y gellid cynhyrchu ieithoedd a fformatau eraill ar gais. Roedd y staff yn gallu cael mynediad at wasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd yn ôl y gofyn.

Ar gyfer cyfarfodydd unigol, gallai cleifion gael cymorth gan gyrff allanol i ddarparu cymorth a chyfarwyddyd, fel cyfreithwyr neu eiriolaeth. Roedd teuluoedd a/neu ofalwyr cleifion hefyd yn cymryd rhan mewn rhai cyfarfodydd unigol. Roedd yr holl gleifion i ni siarad â nhw yn gwybod sut i gael gafael ar wasanaethau eiriolaeth ac fe'n hysbyswyd ganddynt fod y gwasanaethau hyn yn ddefnyddiol iawn iddynt.

### **Cynllunio a darparu gofal**

Trwy ein harsylwadau o gyfarfod y Tîm Amlddisgyblaeth a thrwy sgwrsio â chleifion a staff, gwelsom fod anghenion cleifion yn cael eu hasesu a'u hadolygu'n drylwyr. Gwelsom fod y Tîm Amlddisgyblaeth yn gweithio'n effeithiol i sicrhau bod cleifion yn cael mynediad at y gofal, y driniaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt a bod nodau ar gyfer y dyfodol yn cael eu nodi a chamau'n cael eu cynorthwyo i gyflawni'r nodau hynny. Roedd pwyslais cyfarfod y Tîm Amlddisgyblaeth i ni ei arsylwi ar atebion a chanlyniadau, ac roedd cynllun gweithredu eglur wedi'i nodi. Roedd diffyg trefn yng nghofnodion cleifion yn golygu nad oedd y dull cynllunio gofal trylwyr hwn yn cael ei arddangos gan nodiadau'r cleifion bob amser. Rhoddir sylw i hyn isod.

Roedd model ar gyfer symud drwy'r gwasanaeth ac roedd Tŷ Pentwyn yn cynnig amgylchedd cymorth i gleifion a fyddai'n mynd yn eu blaenau i fyw yn y gymuned. Bu sawl cartref cymunedol ar gael i gefnogi'r cam hwn o dan y darparwr cofrestredig blaenorol. Er nad oedd yr opsiwn hwn yn bodoli mwyach, dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod Elysium Healthcare, y darparwr cofrestredig newydd, wedi ymrwymo i adeiladu ei wasanaeth cartrefi cymunedol ei hun i barhau hwn fel llwybr dewisol i gleifion yn y dyfodol.

Roedd y cleifion yn arbennig o gadarnhaol am fewnbwn therapi galwedigaethol a'r amrywiaeth o weithgareddau a gynigir, gan gynnwys sgiliau bywyd, rhaglenni colli pwysau, grwpiau nofio a chlwb celf. Roedd cerbydau ysbyty ar gael i gynorthwyo mynediad at y gymuned leol. Roedd y cleifion hefyd yn cael eu hannog i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn rhan o'u rhaglen adsefydlu.

### **Ymgysylltiad ac adborth dinasyddion**

Canfuwyd gennym fod amrywiaeth o ddulliau ar waith i'r cleifion allu darparu eu safbwyntiau a'u hadborth i'r gwasanaeth. Gwelsom dystiolaeth hefyd bod y staff, o ganlyniad i adborth cleifion, wedi gwneud gwelliannau i'r gwasanaeth – er enghraifft, gosod llochesi smygu y tu allan i'r adeilad. Cadarnhaodd ein

trafodaethau gyda'r staff a'n harsylwadau bod safbwyntiau'r cleifion yn cael eu gwerthfawrogi a'u hannog.

Gwelsom fod arolygon cleifion yn cael eu cynnal ac roedd fforymau a chyfarfodydd cleifion i alluogi cynrychiolwyr cleifion i godi ac uwchgyfeirio unrhyw broblemau. Roedd systemau profiad y claf yn cael eu hadolygu ar y pryd gan y darparwr cofrestredig newydd, gyda'r nod o gadarnhau'r trefniadau newydd a fyddai'n cael eu rhoi ar waith.

## ***Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol***

**Canfuwyd gennym yn gyffredinol fod gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu i'r cleifion.**

**Roedd y dogfennau statudol yn ymwneud â'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio â deddfwriaeth gysylltiedig ac eithrio mewn un achos annodweddiadol yr oedd y staff yn mynd i'r afael ag ef.**

**Roedd angen gwneud gwelliannau sylweddol i safon y broses o gofnodi a threfnu cofnodion cynllunio gofal i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Mesur Iechyd Meddwl (Cymru). Er i ni gael ein sicrhau bod gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu yn ymarferol, nid oedd dogfennau'r cleifion yn adlewyrchu hyn.**

**Roedd Neuadd Tŷ Gwyn yn addas ar gyfer darparu gwasanaethau asesu ac adsefydlu ac roedd cyfleusterau da yn yr ysbyty. Roedd yr amgylchedd yn darparu cyfyngiadau ac roedd angen gwella rhai agweddau, yn enwedig i sicrhau y gellid cynnal preifatrwydd ac urddas mewn un man clinig ac ynghylch rheoli meddyginiaethau. Fodd bynnag, roedd yr amgylchedd wedi ei gynnal i safon uchel yn gyffredinol, ac roedd cynlluniau ar gyfer gwelliannau ac ailwampio parhaus.**

**Roedd meddyginiaeth yn Neuadd Tŷ Gwyn yn cael ei rheoli'n ddiogel; fodd bynnag, nodwyd un broblem gennym gyda thymheredd yr oergelloedd yr oedd angen ei hadolygu.**

**Canfuwyd gennym fod systemau priodol ar waith i reoli pryderon diogelu.**

**Roedd angen adolygu systemau TG i sicrhau y gallent weithredu ar y lefelau gorau posibl i gefnogi'r ddarpariaeth o ofal cleifion.**

### **Cymhwyso'r Ddeddf Iechyd Meddwl**

Adolygwyd dogfennau cadw statudol chwech o gleifion gennym (dau glaf o bob uned) yn Neuadd Tŷ Gwyn. Roedd pump o'r cleifion wedi cael eu cadw ers nifer o flynyddoedd. Roedd y claf arall wedi cael ei gadw yn y gorffennol ond cafodd gyfnod o ofal anffurfiol (nid wedi'i gadw o dan y Ddeddf) yn fwy diweddar.

Roedd dogfennau'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn drefnus ar y cyfan. Roedd y dogfennau yn profi bod yr achosion o gadw cleifion yn cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl (y Ddeddf).

Roedd yn amlwg bod cymhwyso ac adnewyddu achosion o gadw cleifion wedi cael eu cwblhau fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf. Roedd achosion o gadw cleifion yn cael eu hadolygu mewn gwrandawiadau rheolwyr yr ysbyty ac roedd cyfle i'r cleifion apelio yn erbyn y penderfyniad i'w cadw i Dribiwnlysoedd Adolygu Iechyd Meddwl a rheolwyr yr ysbyty yn unol â'r amserlenni statudol a nodir yn y Ddeddf a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cymru. Cadarnhaodd cydgysylltydd y Ddeddf Iechyd Meddwl fod system strwythuredig o amserlenni wedi cael ei chyflwyno yn dilyn adolygiad diwethaf AGIC.

Roedd yr holl absenoldebau wedi cael eu hawdurdodi gan y clinigydd cyfrifol ar ffurflenni awdurdodi absenoldeb Adran 17 ac roedd amodau'r absenoldeb wedi eu nodi. Roedd tystiolaeth o adolygiadau rheolaidd. Roedd yr holl gleifion wedi llofnodi eu ffurflenni absenoldeb ac wedi cael cynnig copïau.

Gwelsom mewn un achos fod pwerau cadw nyrsys, a phwerau cadw meddygon wedi hynny, wedi cael eu cymhwyso'n gyfreithlon. Fodd bynnag, canfuwyd gennym yn yr achos hwn nad oedd unrhyw gofnodion yn bodoli bod y claf wedi cael ei hysbysu ei fod yn cael ei gadw o dan yr adran berthnasol erbyn hyn, neu ei fod wedi cael ei gadw o dan y pwerau cadw yn flaenorol. Cydnabuwyd gan staff y ward nad oeddent wedi ceisio rhoi'r wybodaeth i'r claf ac nad oeddent wedi cofnodi pam nad oeddent wedi ceisio rhoi'r wybodaeth chwaith, fel y cyfarwyddir gan God Ymarfer Deddf Iechyd Meddwl 2016 ar gyfer Cymru. Aeth y staff i'r afael â hyn pan dynnwyd eu sylw at hyn. Er y cydnabuwyd bod hwn yn ddigwyddiad anaml i'r gwasanaeth, dywedodd y cydgysylltydd Deddf Iechyd Meddwl y byddent yn darparu hyfforddiant i'r staff.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u dyletswyddau o ran Adran 132 y Ddeddf yn ymwneud â hawliau cleifion, ym mhob sefyllfa bosibl.***

Gwelsom ym mhob achos arall y cofnodwyd bod hawliau cleifion wedi cael eu hysbysu a'u cyflwyno yn dilyn cyfnodau priodol.

Darparwyd meddyginiaeth i gleifion yn unol ag Adran 58 y Ddeddf, Cydsyniad i Driniaeth. Pan fu'n ofynnol cael Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn, roedd yr holl ddogfennau a adolygwyd yn cydymffurfio â'r Ddeddf.



Nid oedd staff yn Neuadd Tŷ Gwyn wedi derbyn hyfforddiant ar Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010. Mae AGIC yn argymhell bod staff yn derbyn hyfforddiant ar y Mesur i sicrhau eu bod yn ymarfer yn unol â'r canllawiau statudol.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

#### ***Dylai'r staff dderbyn hyfforddiant ar Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.***

Roedd mwyafrif y cleifion i ni siarad â nhw yn gwybod pam roeddent yn cael eu cadw ac yn deall y gallent apelio yn erbyn y penderfyniad i'w cadw. Dywedodd cleifion wrthym fod y rhesymau am wrthod absenoldeb iddynt yn cael eu hesbonio iddynt a'u bod yn gwybod pryd y byddai'r penderfyniad yn cael ei adolygu.

#### **Cynllunio a darparu gofal – Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010**

Adolygwyd pum set o ddogfennau Cynllun Gofal a Thriniaeth gennym. Nid oedd yr holl ddogfennau i ni eu hadolygu wedi eu cwblhau i safon briodol. Nodwyd yr arsylwadau canlynol sydd angen sylw ac adolygiad brys, o ystyried bod ein canfyddiadau'n debyg i ganfyddiadau o arolygiadau blaenorol:

- Roedd diffyg trefn o ran dogfennau cleifion yn gyffredinol. Roedd rhywfaint o wybodaeth allweddol am gleifion yn cael ei storio ar wahân i'r system electronig. Roedd rhai disgyblaethau yn parhau i ddefnyddio cofnodion papur ac nid oeddent yn rhoi cofnodion yn y system electronig. Roedd problem gyda sganio yn golygu nad oedd yr holl wybodaeth gyfredol berthnasol a phwysig ar gael mewn un man canolog, e.e. roedd asesiadau Therapi Lleferydd ac Iaith a Seicoleg yn cael eu storio yn rhywle arall. Roedd diffyg nodiadau i'w gweld gan y clinigydd cyfrifol. Yn gyffredinol, roedd hyn yn golygu ei bod yn anodd cael syniad eglur, cyfredol a chwbl gynhwysfawr o anghenion pob claf mewn ffordd gwbl hygyrch.
- Yn gyffredinol, canfuwyd cofnodion anghyflawn gennym o wybodaeth sylfaenol, gan fod rhywfaint o'r wybodaeth yn cael ei chadw yn rhywle arall. Er enghraifft, roedd gwybodaeth atgyfeirio yn cael ei chadw ar yriant allanol. Roedd yn anodd dod o hyd i hanesion personol ac archwiliadau cyflwr meddyliol y cleifion. Roedd y rhain o ansawdd gwael yn y cofnodion i ni eu hadolygu.
- Diffyg manylion mewn asesiadau risg. Er i ni gael ein sicrhau, o ymchwilio, bod risgiau yn cael eu hadolygu a'u rheoli'n briodol, roedd diffyg dogfennau i gefnogi hyn.

- Nid oedd yn hawdd cael gafael ar dystiolaeth o asesiadau nyrsio priodol. Pan ganfuwyd asesiadau gennym, roedd y rhain weithiau'n anghyflawn, e.e. nid oedd un Offeryn Sgrinio Cyffredinol ar gyfer Diffyg Maeth yn cynnwys yr offeryn cyfatebol.
- Canfuwyd rhai cynlluniau gofal gennym nad oeddent yn gyfredol. Canfuwyd gennym o ymchwilio, er bod cynlluniau gofal cleifion yn cael eu hadolygu, nid oedd eu cynlluniau gofal gwreiddiol yn cael eu diweddarau i adlewyrchu eu hanghenion cyfredol. Roedd rhai nodiadau'n cael eu hychwanegu heb gael gwared ar hen wybodaeth neu roedd nodiadau adolygu'n cael eu cadw yn rhywle arall. Roedd rhai adolygiadau o gynlluniau gofal yn dweud y dylid 'cyfeirio at nodiadau'r Tîm Amlddisgyblaeth'; fodd bynnag, roedd hyn yn golygu nad oedd dynodiad cyfredol o anghenion cleifion a adolygwyd yn gwbl hygyrch.
- Nid oedd y cynlluniau gofal a ddefnyddiwyd yn cyfateb yn rhwydd i feysydd penodedig y Mesur. Arsylwyd cyfarfod y Tîm Amlddisgyblaeth gennym, a oedd wedi'i drefnu'n effeithiol iawn ar sail meysydd y Mesur, ond nid oedd hyn wedi'i adlewyrchu yn nodiadau'r cleifion.
- Nid oedd y cynorthwywyr gofal iechyd yn gallu mewngofnodi i'r system i gyflwyno eu nodiadau eu hunain ar adeg ein harolygiad. Fe'n hysbyswyd bod hyn yn cael ei ddatrys.

Dywedodd y staff rheoli eu bod yn cael problemau gyda systemau TG oherwydd y newid cwmni. Fodd bynnag, ni allem fod yn sicr bod y staff wedi cymryd camau priodol ar ôl i rai o'r pryderon hyn gael eu codi yn ystod ymweliadau arolygu blaenorol. Er nad oedd gennym bryderon am safonau'r gofal sy'n cael ei ddarparu'n ymarferol, roedd angen gwelliannau sylweddol i systemau ac ansawdd cofnodi gofal cleifion. Cytunodd y staff rheoli i ddechrau gweithio ar y pryderon a nodwyd ar unwaith.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r staff gymryd camau i fynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd gyda dogfennau cleifion fel yr amlinellir yn yr adroddiad hwn. Mae'r meysydd hyn fel a ganlyn:***

- ***Trefnu cofnodion yn well a sicrhau ei bod yn hawdd cael gafael ar yr holl wybodaeth allweddol gyfredol a phwysig yn ymwneud â phob disgyblaeth a chan yr holl weithwyr proffesiynol dan sylw a'i bod yn cael ei storio mewn un man canolog. Mae'n rhaid i hyn gynnwys yr holl gynlluniau gofal ac asesiadau ac unrhyw nodiadau a chofnodion perthnasol eraill.***

- ***Mae'n rhaid i gofnodion o'r holl wybodaeth sylfaenol (gan gynnwys hanesion personol ac archwiliadau cyflwr meddyliol) fod yn ddigon manwl a chael eu cwblhau yn unol â safonau proffesiynol.***
- ***Mae'n rhaid i asesiadau risg fod yn ddigon manwl a chael eu cwblhau yn unol â safonau proffesiynol.***
- ***Mae'n rhaid i asesiadau nyrsio fod yn ddigon manwl a chael eu cwblhau yn unol â safonau proffesiynol.***
- ***Mae'n rhaid i gynlluniau gofal fod yn ddigon manwl a chael eu cwblhau yn unol â safonau proffesiynol. Ar ôl eu hadolygu, mae'n rhaid diweddarau cynlluniau gofal fel eu bod yn cynnig gwybodaeth eglur am anghenion cyfredol y claf.***
- ***Mae'n rhaid i'r staff sicrhau y gall cynlluniau gofal ddangos sut y mae holl feysydd y Mesur yn cael eu hasesu a'u hadolygu.***
- ***Mae'n rhaid i'r staff fynd i'r afael â'r holl broblemau TG parhaus, gan gynnwys diffyg cyfleusterau sganio effeithiol ac anawsterau cynorthwywyr gofal iechyd yn mewngofnodi i'r system electronig.***

***Er bod systemau archwilio cynlluniau gofal ar waith, nid oeddent wedi rhoi sylw i'r problemau a nodir uchod. Mae AGIC yn argymhell felly bod y system ar gyfer archwilio dogfennau cleifion yn cael ei hadolygu a bod system effeithiol yn cael ei chyflwyno ar gyfer y dyfodol.***

### **Yr amgylchedd**

Mae Neuadd Tŷ Gwyn wedi'i leoli ar gyrion y Fenni. Ceir safle bws ar waelod y llwybr i'r ysbyty sydd ar lwybr bysiau sy'n cynnig mynediad at y Fenni. Mae'r ysbyty wedi'i leoli mewn tir a gerddi helaeth. Ceir adran Therapi Galwedigaethol ar wahân sy'n cynnwys ystafell therapi, cegin a champfa.

Mae Neuadd Tŷ Gwyn wedi ei rannu'n dair ward ar wahân: Tŷ Gwyn (lle mae'r brif dderbynfa, swyddfeydd y staff a'r ystafelloedd cyfarfod wedi eu lleoli hefyd), Skirrid View a Thŷ Pentwyn. Roedd ystafelloedd a manau bwyta ar wahân i ymwelwyr ar draws yr holl wardiau. Lle'r oedd drysau wedi eu cloi, roedd cleifion anffurfiol yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i allu gadael eu hunain i mewn ac allan. Roedd y cleifion wedi cyfrannu at yr amgylcheddau trwy eu gwaith celf a/neu eu casgliadau. Yn gyffredinol, roedd yr amgylchedd ar draws yr ysbyty yn lân, yn braf ac yn gyfeillgar, ac wedi'i gynllunio neu ei addasu gyda phwyslais ar y claf.

Canfuwyd gennym yn gyffredinol fod yr holl wardiau wedi eu cynnal a'u cadw'n dda ac yn addas i'r diben a bod ymateb prydlon i unrhyw geisiadau cynnal a chadw. Fodd bynnag, canfuwyd yr agweddau canlynol ar yr amgylchedd yr oedd angen eu hadolygu:

- Er i ni weld bod rhannau wedi cael eu hailwampio a bod eitemau clustogwaith newydd wedi eu cyflenwi, roedd rhai rhannu o Dŷ Gwyn yn ymddangos yn flêr. Gwelsom fod tystiolaeth ar y llawr uchaf fod dŵr wedi treiddio o amgylch y ffenestr do. Roedd un toiled wedi torri ar adeg yr arolygiad. Dywedodd y rheolwr cofrestredig fod cyllid cyfalaf wedi cael ei sicrhau i ailwampio Tŷ Gwyn.
- Nid oedd y man clinig a'r ystafell driniaeth yn Nhŷ Gwyn yn addas ar gyfer sicrhau preifatrwydd ac urddas priodol i gleifion gan fod rhan o'r ardal yn cael ei defnyddio fel derbynfa hefyd. Rhoddir sylw i hyn yn yr adran rheoli meddyginiaethau isod.
- Dywedodd rhai cleifion wrthym eu bod yn teimlo nad oedd digon o fannau preifat ar gael iddynt yn Skirrid View a chadarnhaodd y staff anawsterau yn rheoli'r agwedd hon ar yr amgylchedd ar y ward. Gwelsom fod cynlluniau ar waith i ehangu'r lle ar y ward trwy ychwanegol ystafell wydr.
- Roedd y gegin yn Nhŷ Pentwyn yn arbennig o fach a nodwyd risgiau yn gysylltiedig â chynllun y gegin gennym, yn enwedig os oedd mwy nag un claf yn defnyddio'r fan hon. Cynghorwyd yr ysbyty i gynnal asesiad risg ar gyfer y fan hon i sicrhau bod unrhyw risgiau amgylcheddol yn cael eu nodi a'u rheoli.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r staff adolygu a mynd i'r afael â'r agweddau ar yr amgylchedd a nodir yn yr adroddiad, ac yn benodol:***

- ***Agweddau blêr ar Dŷ Gwyn***
- ***Diffyg manau preifat sydd ar gael yn Skirrid View***
- ***Asesiad risg o'r gegin yn Nhŷ Pentwyn***

### **Rheoli risg ac iechyd a diogelwch**

Roedd polisïau, gweithdrefnau ac arferion gwaith iechyd a diogelwch priodol ar waith i hybu diogelwch staff, cleifion ac ymwelwyr yn yr ysbyty.

Gwelsom fod asesiadau amgylcheddol a diogelwch tân wedi cael eu cynnal ac roedd unrhyw broblemau a nodwyd wedi cael sylw a'u datrys yn brydlon. Gwelsom dystiolaeth fod offer tân yn cael eu harchwilio a'u trwsio yn rheolaidd. Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy yn cael eu cynnal ar eitemau trydanol. Cynghorwyd y staff i wneud yn siŵr bod cofnodion profion dyfeisiadau cludadwy yn cael eu dyddio.

Datgelodd taith o gwmpas yr ysbyty fod manau storio priodol, ymwybyddiaeth y staff o risgiau, a thîm cynnal a chadw effeithiol yn sicrhau bod unrhyw beryglon yn yr amgylchedd yn cael eu monitro, eu hasesu a'u lleihau – er enghraifft, achosion o lithro/baglu/cwmpo. Roedd rheolwr y gwasanaethau cymorth yn angerddol am ei swydd, yn cwblhau teithiau cerdded rheolaidd i nodi risgiau, ac yn gweithio'n effeithiol gyda'r timau staff.

Gwelsom fod polisi eglur ar waith i atal rhwymynnau ac roedd asesiad risg atal rhwymynnau manwl wedi cael ei gynnal ar draws yr ysbyty cyfan, gan gymryd camau priodol yn ôl y gofyn.

Gwelsom fod cyfarfodydd iechyd a diogelwch rheolaidd yn cael eu cynnal ac adolygwyd y cofnodion ar gyfer y rhain gennym. Roedd sawl pwynt y nodwyd gennym a oedd wedi bod yn parhau ers saith mis ac awgrymwyd gennym y dylai'r staff rheoli adolygu'r pwyntiau hyn i sicrhau y gellid cymryd camau priodol i roi sylw i gamau a'u cymryd.

### **Atal a rheoli heintiau a dadheintio**

Roedd staff glanhau penodol yn darparu safon uchel o wasanaethau glanhau sy'n cydymffurfio â safonau craidd amgylchedd gofal iechyd a diogelwch cleifion. Roedd tîm o staff cadw tŷ penodol ar waith. Roedd holl rannau'r ysbyty yn amlwg yn lân ac yn hylan trwy gydol yr arolygiad. Roedd mynediad at gyfleusterau golchi a sychu dwylo ar bob ward.

Gwelsom fod archwiliadau rheoli heintiau yn cael eu cynnal i nodi a rheoli unrhyw risgiau rheoli heintiau yn yr amgylchedd. Cynhaliwyd cyfarfodydd atal a rheoli heintiau i adolygu a bwrw ymlaen â chymau gweithredu.

### **Maetheg**

Gwnaeth mwyafrif y cleifion i ni siarad â nhw sylwadau cadarnhaol am eu pryddau a dywedasant wrthym eu bod yn cael dewisiadau. Gwelsom fod bwyta'n iach yn cael ei hybu ar draws yr ysbyty.

Cawsom sgwrs gyda staff y gegin ac edrych ar fwydlenni cleifion, gan ganfod bod cynllun bwydlen gytbwys wedi cael ei ddatblygu. Fe'n hysbyswyd hefyd

bod prydau bwyd amgen ar gael mewn ymateb i ofynion diwylliannol ac anghenion meddygol unigolion.

Yn rhan o ofal adsefydlu'r cleifion, anogwyd a chynorthwywyd y cleifion i goginio eu prydau bwyd eu hunain. Pan oedd gan gleifion awdurdodiad absenoldeb Adran 17, gallent hefyd siopa am fwyd yn rhan o'u gweithgareddau adsefydlu cymunedol.

Roedd cyfleusterau addas ar gael i'r cleifion ar gyfer diodydd poeth ac oer a gwelsom gleifion yn defnyddio'r cyfleusterau cegin i gleifion trwy gydol yr arolygiad.

### **Rheoli meddyginiaethau**

Canfuwyd rheolaeth ddiogel o feddyginiaethau gennym yn yr ysbyty yn gyffredinol. Roedd polisi rheoli meddyginiaethau cynhwysfawr ar waith a gwelsom y staff yn rhoi meddyginiaethau i gleifion yn ddiogel.

Canfuwyd gennym fod meddyginiaethau wedi eu storio'n ddiogel mewn cypyrddau ac oergelloedd wedi'u cloi ar draws y tair ward. Fodd bynnag, gwelsom fod diffyg lle storio ar gyfer meddyginiaeth, yn enwedig yn Nhŷ Gwyn. Canfuwyd gennym fod mannau meddyginiaeth yn rhai amldefnydd oherwydd cyfyngiadau yn yr amgylchedd presennol ac felly nid oeddent yn cynnig y lle mwyaf priodol ar gyfer pob agwedd ar reoli meddyginiaethau. Defnyddiwyd yr ystafell glinig yn Nhŷ Gwyn i storio meddyginiaethau, fel ystafell driniaeth, ac fel man a rennir gyda'r dderbynfa hefyd. Roedd diffyg preifatrwydd ac urddas i gleifion a oedd yn defnyddio'r ystafell glinig ac wrth roi meddyginiaethau i gleifion yn y brif dderbynfa.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r man amldefnydd yn Nhŷ Gwyn a chymryd camau i wahanu swyddogaethau'r ystafell glinig/rheoli meddyginiaethau/derbynfa i sicrhau bod cleifion yn cael preifatrwydd ac urddas priodol.***

Roedd yn amlwg bod y staff yn monitro tymheredd oergell y clinig i sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio ar y tymheredd cywir fel y nodir gan y gweithgynhyrddydd. Fodd bynnag, yn Nhŷ Gwyn, gwelsom fod dau synhwrydd wedi'u gosod ar un oergell, gydag un synhwrydd yn dynodi tymheredd a oedd y tu allan i'r amrediad diogel. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i ddatrys hyn ar unwaith.

## ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod tymheredd oergell y clinig yn Nhŷ Gwyn yn cael ei gadw o fewn yr amrediad diogel ac mae'n rhaid iddo sicrhau bod system eglur ar waith i fonitro tymheredd oergelloedd, gan gymryd camau yn ôl y gofyn.***

Roedd y siartiau Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth i ni eu hadolygu wedi cael eu cwblhau fel sy'n ofynnol. Roedd systemau priodol ar waith i gofnodi'r defnydd o gyffuriau a reolir a gwelsom fod lefelau stoc yn cael eu monitro, gyda'r rheolwr yn darparu haen ychwanegol o archwiliadau.

Roedd llwybr archwilio ar waith, a oedd yn dangos bod yr holl offer brys yn bresennol ac yn cael eu harchwilio'n rheolaidd.

## **Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed**

Canfuwyd gennym fod gan y staff fynediad at bolisi cyfredol yr ysbyty ar amddiffyn oedolion agored i niwed a gwybodaeth ddigonol amdano. Roedd y staff wedi derbyn hyfforddiant ar amddiffyn oedolion agored i niwed a phlant; roedd angen diweddariadau ar gyfer rhai staff.

Roedd arweinydd ar gyfer diogelu yn yr ysbyty a chanfuwyd gennym o archwilio cofnodion bod atgyfeiriadau prydlon a phriodol wedi cael eu gwneud i awdurdodau diogelu allanol i ymchwilio i bryderon/digwyddiadau, pan oedd hyn yn briodol. Hefyd, roedd ystafelloedd wedi'u nodi yn y gwasanaeth a ddefnyddiwyd pan oedd plant yn ymweld.

## **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Canfuwyd gennym fod gofal a thriniaeth yn cael eu darparu yn unol â chanllawiau sydd wedi'u hen sefydlu a chanllawiau cenedlaethol a phroffesiynol perthnasol, a chyfeiriwyd at y rhain mewn dogfennau polisi perthnasol a oedd yn cynorthwyo'r staff yn eu gwaith. Roedd system briodol ar waith ar gyfer rheoli a dosbarthu rhybuddion diogelwch cleifion i'r holl staff perthnasol.

Roedd systemau a oedd wedi'u hen sefydlu ar gyfer diwygio polisiau, gweithdrefnau a chanllawiau yn rheolaidd hefyd, neu ar yr adeg pan oedd newid yn ofynnol. Roedd angen cwblhau'r trefniadau hyn o hyd o dan y darparwr cofrestredig newydd. Fodd bynnag, ar adeg yr arolygiad, roedd gan y staff fynediad at ganllawiau cyfredol i'w helpu i ofalu am eu cleifion.

## **Rheoli gwybodaeth a thechnoleg gyfathrebu**

Oherwydd y newid cwmni, roedd y staff yn cael rhai anawsterau gyda systemau technoleg gwybodaeth ar y pryd. Roedd yr ysbyty yn dal i ddefnyddio systemau'r hen gwmni ar y pryd, cyn trosglwyddo i systemau newydd. Roedd hyn yn golygu nad oedd rhai agweddau ar y systemau yn gweithio i'r lefelau gorau posibl.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'r rhaid i'r darparwr cofrestredig newydd sicrhau bod ei systemau TG yn cael eu cyflwyno cyn gynted â phosibl fel y gall y staff drosglwyddo o'r hen systemau nad ydynt yn gweithio mwyach i'r lefel orau posibl.***

## **Rheoli cofnodion**

Roedd cofnodion a ddefnyddir yn yr ysbyty wedi'u storio'n ddiogel i atal mynediad heb awdurdod. Roedd rhai cofnodion papur yn cael eu harchifo ar adeg ein harolygiad er mwyn creu lle storio ychwanegol ar y wardiau. Roedd trefniadau ar waith i gopïau wrth gefn o gofnodion electronig gael eu gwneud rhag ofn i ddata gael eu colli.



## ***Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth***

Er bod yr ysbyty mewn cyfnod o newid i ddarparwr cofrestredig newydd, canfuwyd strwythurau adrodd ac atebolrwydd eglur gennym yn yr ysbyty a safon uchel o reolaeth ac arweinyddiaeth. Roedd tîm staff ymroddedig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan reolwyr yr ysbyty ac uwch-reolwyr. Roedd y rheolwyr yn amlwg yn ymatebol i syniadau ac anghenion y staff.

Canfuwyd gennym fod lefelau staffio yn briodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol, ond hysbyswyd y staff i ddiweddarau'r Datganiad o Ddiben i adlewyrchu'n fwy cywir y lefelau staffio yr oeddent yn gweithio'n unol â nhw.

Canfuwyd gennym fod digwyddiadau a phryderon yn cael eu rheoli'n briodol ac yn sensitif. Fodd bynnag, roedd angen gwella'r broses cadw cofnodion o ran digwyddiadau. Roedd angen gwelliannau hefyd i sicrhau bod gofynion rheoleiddio yn cael eu bodloni o ran y Datganiad o Ddiben, datganiadau blynyddol, ac ymweliadau'r darparwr cofrestredig.

Roedd y broses recriwtio'r gweithlu yn cynnwys archwiliadau a sicrwydd priodol i gyflogeion newydd.

### **Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd**

Roedd yr ysbyty'n cael ei drosglwyddo i gwmni a darparwr cofrestredig newydd, Elysium Healthcare, ar adeg ein harolygiad. Dywedodd staff a chleifion wrthym nad oedd hyn wedi effeithio gofal cleifion. Fodd bynnag, roedd hyn yn golygu bod yr ysbyty mewn cyfnod o newid ac roedd dal i fod angen adolygu a diweddarau rhai o'r polisiau a'r gweithdrefnau yr oedd y staff yn gweithio'n unol â nhw er mwyn cynnwys trefniadau o dan y cwmni newydd.

#### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen adolygu a diweddarau holl bolisiau a gweithdrefnau'r ysbyty i sicrhau eu bod yn cynnwys trefniadau newydd o dan Elysium Healthcare. Mae'n rhaid cyfathrebu'r polisiau a'r gweithdrefnau newydd i'r staff.***

Er gwaethaf y newid, canfuwyd gennym fod llinellau rheolaeth ac atebolrwydd eglur a dywedodd y staff wrthym fod uwch-reolwyr o Elysium Healthcare yn ymgysylltu â'r tîm staff yn ystod y cyfnod hwn o newid. Roedd strwythurau

rheolaeth eglur ar waith a oedd yn egluro'r trefniadau adrodd newydd. Dywedodd staff yr ysbyty wrthym fod Elysium Healthcare hefyd wedi rhoi sicrwydd iddynt o ran parhau gofal a chymorth seiliedig ar werthoedd cryf yr ysbyty. Er enghraifft, dywedodd y staff wrthym am fuddsoddiadau y bwriadwyd eu gwneud, ac roedd cyllid wedi ei gytuno ar gyfer rhaglen ailwampio lawn a moderneiddio gweinydd cyfrifiadurol yr ysbyty. Gwelsom hefyd fod cyfarfod gyda chleifion wedi ei drefnu'n fuan i drafod sut i fwrw ymlaen mewn ffordd ystyrlon gyda systemau adborth cleifion.

Canfuwyd gennym fod systemau a phrosesau wedi'u diffinio'n dda ar waith i sicrhau bod yr ysbyty'n canolbwyntio ar wella ei wasanaethau yn barhaus. Gwnaed hyn yn rhannol trwy raglen barhaus o archwilio a'i strwythur llywodraethu sefydledig, a oedd yn galluogi aelodau staff allweddol/enwebedig i gyfarfod yn rheolaidd i drafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal i gleifion. Roedd y trefniadau hynny wedi'u cofnodi fel y gellid eu hadolygu. Ar adeg yr arolygiad, roedd y staff yn parhau gyda threfniadau cyfredol y canfuwyd gennym eu bod yn gadarn.

Datgelodd sgysiaiu gyda'r rheolwr cofrestredig hefyd eu swyddogaeth o ran monitro prosesau llywodraethu ac adrodd ar lefel gorfforaethol. Canfuwyd gennym fod y tîm staff wedi ymrwmo i ddarparu safonau uchel o ofal cleifion a'u bod yn agored i'n canfyddiadau ac yn eu derbyn.

Canfuwyd gennym nad oedd dau ofyniad penodol yn ymwneud â sicrhau ansawdd o dan y rheoliadau yn cael eu bodloni: ymweliadau chwe misol yr Unigolyn Cyfrifol a chwblhau datganiadau blynyddol. Rhybuddiwyd y staff am yr angen i gyflwyno'r rhain.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig gynnal a chofnodi ymweliadau darparwr cofrestredig chwe misol yn unol â Rheoliad 28.***

***Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig lunio asesiad blynyddol yn cynnwys yr holl wybodaeth a nodir o dan Reoliad 19 (3).***

Ar adeg ein harolygiad, roedd dal i fod angen i Elysium Healthcare benodi Unigolyn Cyfrifol newydd i fod yn gyfrifol am ddyletswyddau penodol o dan y rheoliadau a'u cyflawni.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i Elysium Healthcare benodi Unigolyn Cyfrifol i gyflawni dyletswyddau penodol fel yr amlinellir o dan y rheoliadau a hysbysu AGIC am fanylion y penodiad newydd.***

Roedd Datganiad o Ddiben ar waith ond roedd angen ei ddiweddarau a'i ddiwygio er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni gofynion Rheoliad 6.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r Datganiad o Ddiben gynnwys yr holl wybodaeth a restrir o dan Reoliad 6. Mae'n rhaid diweddarau Datganiad o Ddiben y gwasanaeth i gynnwys:***

- ***Cyfeiriad at Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, sydd wedi disodli erbyn hyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol a ddyfynnir***
- ***Manylion swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Unigolyn Cyfrifol o fewn y sefydliad (Atodlen 1, pwynt 4)***
- ***Y trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion fel y nodir yn Rheoliad 24 (Atodlen 1, pwynt 10)***
- ***Y strwythur sefydliadol newydd (Atodlen 1, pwynt 6)***

Gwelsom fod tystysgrifau cofrestru AGIC wedi eu harddangos yn amlwg ar draws yr holl wardiau. Fodd bynnag, gwelsom fod y tystysgrifau a oedd wedi'u harddangos yn Nhŷ Pentwyn yn hen.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau mai'r fersiynau diweddaraf yw'r holl dystysgrifau cofrestru AGIC a arddangosir.***

### **Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau**

Adolygwyd sampl fach o ddigwyddiadau a phryderon gennym, ac er i ni gael ein sicrhau y cymerwyd camau'n brydlon i ymateb iddynt, nid oedd hyn bob amser wedi'i adlewyrchu yn y cofnodion a gadwyd.

Roedd y staff yn hysbysu am ddigwyddiadau trwy system electronig a oedd yn cymhell staff uwch i adolygu'r digwyddiad yn awtomatig. Adolygwyd yr holl ddigwyddiadau yng nghyfarfodydd wythnosol y tîm uwch-reolwyr wedyn. Cynhaliwyd archwiliadau dilynol gennym o dri digwyddiad ac fe'n sicrhawyd bod camau priodol wedi cael eu cymryd yn brydlon. Fodd bynnag, canfuwyd gennym mewn dau achos bod ffurflenni digwyddiadau yn cynnwys manylion cryno neu anghyflawn neu nad oedd y staff wedi nodi ar y system bod camau wedi cael eu cwblhau'n briodol bellach. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i gyflwyno hyfforddiant staff ar y materion hyn.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i ffurflenni digwyddiadau gael eu cwblhau'n ddigon manwl ac mae'n rhaid i systemau priodol fod ar waith a chael eu defnyddio'n effeithiol gan y staff i ddangos y camau a gymerwyd.***

Canfuwyd gennym fod system ar waith i hysbysu AGIC am unrhyw ddigwyddiadau a oedd yn ddigwyddiadau hysbysadwy o dan reoliadau 30 a 31. Yn dilyn yr arolygiad hwn, cysylltodd staff yr ysbyty ag AGIC i sicrhau y gellid hysbysu am ddigwyddiadau'n electronig.

Roedd y sampl o bryderon a chwynion i ni eu hadolygu wedi cael eu rheoli'n brydlon ac mewn modd priodol a sensitif. Roedd yr holl gleifion i ni siarad â nhw yn gwybod sut i wneud cwyn. Roedd polisi cwynion cynhwysfawr ar waith a gwelsom fod cwynion wedi cael eu rheoli yn unol â'r amserlenni a nodwyd gan y polisi. Er bod y polisi'n dal i gyfeirio at gysylltiadau yn yr hen gwmni o ran uwchgyfeirio, roedd yr uwch-reolwyr yn eglur ynghylch eu llinellau adrodd o dan y darparwr cofrestredig newydd.

### **Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol**

Roedd datganiad o ddiben yr ysbyty yn cynnwys ysgol staffio a ddefnyddiwyd i ganfod lefelau staffio a chymysgedd sgiliau yn ôl nifer ac aciwtedd y cleifion. Gwelsom o arolygu rotas staff fod achlysuron pan nad oedd yr ysbyty yn bodloni'r lefelau staffio fel y nodir o dan yr ysgol staffio. Trafodwyd hyn gyda'r staff rheoli, a esboniodd eu bod nhw, fel tîm rheoli, o ran amgylchiadau penodol, yn darparu cymorth wrth gefn fel nyrsys cofrestredig. Gwelsom hyn yn ymarferol ar ddiwrnod cyntaf ein harolygiad, pan oedd absenoldeb staff ar y funud olaf a lenwyd gan reolwr y gwasanaethau clinigol yn ystod sifft y bore.

Yn ystod ein harolygiad, gellid dod o hyd i staff yn rhwydd ym mhob man lle'r oedd cleifion ac roedd yn ymddangos bod nifer digonol yn bresennol i ddiwallu anghenion unigol. Cynghorwyd tîm rheoli'r ysbyty i adolygu'r ysgol staffio i nodi ac adlewyrchu'n fwy cywir y lefelau staffio yr oeddent yn gweithio'n unol â nhw a'r trefniadau ar gyfer darparu cymorth wrth gefn.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r staff sicrhau bod ysgol staffio ar waith sy'n gywir, yn gyfredol, ac yn nodi'r trefniadau presennol ar gyfer darparu cymorth wrth gefn ar draws safle'r ysbyty yn ystod cyfnodau o absenoldeb staff. Mae'n rhaid i'r ysbyty adolygu a diwygio hyn yn ei Ddatganiad o Ddiben a'i ailgyflwyno i AGIC.***

Amlygodd trafodaethau am y rheolaeth o salwch/absenoldeb staff fod trefniadau addas ar waith i ddefnyddio staff banc yn ôl y gofyn. Roedd yr ysbyty wedi cynyddu ei gronfa o staff banc yn ddiweddar a dywedodd y staff wrthym fod staff banc yn cael cynnig swyddi parhaol pan oeddent yn dod ar gael. Gwelsom fod staff asiantaeth wedi cael eu defnyddio hefyd yn y misoedd diwethaf. Rhoddodd y rheolwr cofrestredig sicrwydd bod hyn oherwydd cyfnod o lefelau uchel o salwch a defnyddiwyd staff asiantaeth a oedd yn adnabod y lleoliad yn unig.

Gwelsom fod gwerthusiadau staff yn cael eu cynnal yn flynyddol ac roedd y cofnodion i ni eu hadolygu yn gyfredol. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y rheolwr cofrestredig eisoes wedi pennu amcanion eglur ar gyfer y flwyddyn gan y darparwr cofrestredig newydd. Gwelsom hefyd fod themâu o werthusiadau staff ar gyfer y flwyddyn cynt wedi cael eu crynhoi mewn poster a oedd wedi'i arddangos yn y rhannau o'r ysbyty i'r staff. Gwelsom fod themâu wedi cael eu hadolygu a, phan fu ceisiadau cyffredin, e.e. am bynciau hyfforddi penodol, roedd y tîm rheoli wedi cymryd camau i roi sylw i hyn a darparu hyfforddiant yn y meysydd hynny. Roedd hwn yn faes arbennig o nodedig. Roedd y staff yn gadarnhaol am y cymorth a gynigir iddynt ac roedd yn eglur bod y staff rheoli yn gwerthfawrogi eu mewnbwn. Roedd polisi chwythu'r chwiban eglur ar waith a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent godi pryderon a bod ganddynt hyder y byddai pryderon yn cael sylw.

Nodwyd gennym ym mhump o'r saith cofnod staff i ni eu hadolygu bod rhai bylchau o ran darparu goruchwyliaeth reolaidd i'r staff. Fodd bynnag, roedd yn eglur bod goruchwyliaeth a chymorth anffurfiol yn cael eu cynnig yn barhaus.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r staff rheoli sicrhau bod gan y staff fynediad at oruchwyliaeth ffurfiol reolaidd a bod hon yn cael ei chofnodi i ddangos cydymffurfiad.***

Siaradodd y staff yn gadarnhaol am yr hyfforddiant a ddarperir gan Neuadd Tŷ Gwyn ac roedd cofnodion hyfforddiant gorfodol y staff yn dangos cydymffurfiad uchel o ran ei gwblhau. Roedd angen i rai staff gael hyfforddiant diweddar mewn rhai meysydd. Nid oedd y staff yn derbyn hyfforddiant ar y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) ar y pryd a rhoddwyd sylw i hyn uchod.

### **Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu**

Edrychwyd ar sampl o gofnodion recriwtio wyth o'r staff, a oedd yn adlewyrchu bod y broses recriwtio staff yn agored a theg. Ym mhob achos, roedd cofnod o gais, cyfweliad, a derbyn tystlythyrau. Roedd y darparwr

cofrestredig yn dilysu cymwysterau proffesiynol unigolion wrth eu penodi a'u cofrestriad parhaus â chyrrff proffesiynol.

Roedd Neuadd Tŷ Gwyn hefyd yn cynnal archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wrth benodi a phob tair blynedd wedi hynny. Roedd hyn yn cynorthwyo i roi sicrwydd ynghylch uniondeb cymeriad y rhai a gyflogir gan y darparwr cofrestredig.

Ar adeg ein harolygiad, roedd swyddi gwag ar gyfer nyrs gofrestredig, therapydd cerddoriaeth, a gweithiwr cymdeithasol yr ysbyty. Roedd prosesau recriwtio wedi cychwyn ar gyfer y swyddi hyn. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y darparwr cofrestredig newydd hefyd wedi cytuno swydd rheolwr ward ychwanegol, ac roedd cyfweiliadau'n cael eu cynnal ar ddiwrnod ein harolygiad.

## 5. Y camau nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i ddelio â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Neuadd Tŷ Gwyn yn cael eu trin, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y bwrdd iechyd mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC am y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r gwasanaeth yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r bwrdd iechyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei werthuso a'i gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 6. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau'n bodloni gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.<sup>1</sup> Pan fo'n briodol, bydd AGIC hefyd yn ystyried sut y mae gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Mae arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl yn ddirybudd ac rydym yn arolygu ac yn adrodd yn erbyn tair thema:

- **Ansawdd profiad y claf:** Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr i sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.
- **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol:** Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.
- **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth:** Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Sgyrsiau gyda chleifion a chyfweliadau gyda staff
- Arsylwadau cyffredinol ar amgylchedd y gofal a'r arferion gofal

---

<sup>1</sup> Cyhoeddwyd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru ym mis Ebrill 2011. Bwriad y safonau yw sicrhau y gall cleifion a phobl sy'n dewis gofal iechyd preifat gael eu sicrhau o wasanaethau diogel ac o ansawdd. <http://www.hiw.org.uk/regulate-healthcare-1>



- Trafodaethau gydag uwch-reolwyr yn y gyfarwyddiaeth
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisïau a gweithdrefnau sy'n sail i ofal cleifion
- Ystyried prosesau, gweithgareddau a rhaglenni gwella ansawdd

Mae arolygiadau AGIC yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn. Efallai y byddant hefyd yn nodi problemau ehangach yn gysylltiedig ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gofal iechyd a ddarperir a'r ffordd y mae'r ddarpariaeth o wasanaethau'n sicrhau urddas a gofal hanfodol.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth yn y cyfarfod adborth a gynhelir ar ddiwedd pob un o'n harolygiadau.

Tynnir sylw'r gwasanaeth at unrhyw bryderon brys sy'n codi o'r arolygiadau hyn trwy lythyr gweithredu ar unwaith. I wasanaethau annibynnol, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu am bryderon brys ac achosion difrifol o ddiffyg cydymffurfiad â'r rheoliadau.<sup>2</sup> Bydd y canfyddiadau hyn (pan fyddant yn berthnasol) yn cael eu nodi yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

---

<sup>2</sup> Yn rhan o broses diffyg cydymffurfiad a gorfodi AGIC ar gyfer gofal iechyd annibynnol, bydd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn cael ei gyflwyno pan fydd diffyg cydymffurfiad â'r rheoliadau yn fwy difrifol ac yn ymwneud â chanlyniadau gwael a methiant systemig. Bydd hyn pan fo canlyniadau gwael i bobl (oedolion neu blant) sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a phan fod methiannau'n arwain at beryglu hawliau pobl. Mae copi o broses gydymffurfio AGIC ar gael ar gais.

## Atodiad A

**Gwasanaeth Iechyd Meddwl:**

**Cynllun Gwella**

**Gwasanaeth:**

**Neuadd Tŷ Gwyn**

**Dyddiad yr Arolygiad:**

**11 – 12 Ionawr 2017**

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Safon	Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>					
9	<p>Rhaid i'r Canllaw i Gleifion gynnwys yr holl wybodaeth a restrir yn Rheoliad 7. Rhaid i ganllaw cyfredol y gwasanaeth i gleifion gael ei ddiweddarau i gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>Y telerau a'r amodau ynglŷn â'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar gyfer cleifion, gan gynnwys y swm a'r dull o dalu taliadau ar gyfer cleifion am bob agwedd ar eu triniaeth (Rheoliad 7b)</li><li>Crynodeb o'r weithdrefn gwyno</li></ul>	Rheoliad 7	<p>Bydd Canllaw i Gleifion yr ysbyty yn cael ei adolygu gan y Tîm Uwch-reolwyr. Bydd y canllaw dilynol yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r canlynol yn gywir:</p> <p>Y telerau a'r amodau ynglŷn â'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar gyfer cleifion</p> <p>Crynodeb o'r polisi cwyno a fydd yn cynnwys copi hawdd ei ddarllen</p> <p>Crynodeb o'r adborth diweddaraf gan ddefnyddwyr gwasanaeth</p>	Shaun Cooper	30/04/2017

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Safon	Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<p>(Rheoliad 7d)</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Crynodeb o'r safbwyntiau a gasglwyd gan gleifion ac eraill (Rheoliad 7e)</li> <li>Yr adroddiad arolygu diweddaraf a baratowyd gan yr awdurdod cofrestru, neu wybodaeth ynglŷn â sut y gellir cael copi o'r adroddiad hwnnw (Rheoliad 7g)</li> </ul>		Gwybodaeth fanwl ynglŷn â sut y gellir cael copi o'r adroddiad arolygu diweddaraf gan AGIC		
10	Rhaid i staff gofnodi sut maent yn darparu gwybodaeth ar gyfer cleifion a sut maent yn ceisio cynorthwyo cleifion i ddeall gwybodaeth, mewn modd cyson a chywir.	Safonau Gofynnol Cenedlaethol (Safon 9); Rheoliad 40	Gyda chyflwyniad system Carenotes a Path-Nav wedi'i diweddarau, bydd staff yn gallu dangos eu bod wedi darparu gwybodaeth a sut maent wedi gwneud hynny, gan ymgorffori sylwadau cleifion mewn cynlluniau gofal ac asesiadau nyrsio. Mae dolen ar yr holl ddogfennau sy'n ymwneud â chleifion y mae'n rhaid i staff ei chwblhau i ddangos eu bod wedi cynnig copiâu o'r wybodaeth i gleifion a beth oedd y canlyniad.	Shaun Cooper	31/07/2017
<b>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</b>					
14	Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod	Y Ddeddf	Bydd staff yn cwblhau hawliau	Shaun	31/03/2017

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Safon	Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	staff yn ymwybodol o'u dyletswyddau mewn perthynas ag Adran 132 y Ddeddf ynglŷn â hawliau cleifion ym mhob sefyllfa bosibl.	Iechyd Meddwl (Adran 132)	<p>Adran 132 yn system Carenotes. Bydd hyn yn dangos pa wybodaeth sydd wedi cael ei chynnig i'r claf – ynghyd â'i sylwadau a'i ddealltwriaeth.</p> <p>Bydd rheolwyr ward yn archwilio'r gwaith o gwblhau a dogfennu'r broses hon trwy ddangosfyrddau byw, a fydd yn nodi pan fydd hawliau Adran 132 wedi cael eu cwblhau a phan fydd angen eu cwblhau nesaf.</p>	Cooper	
15	Dylai staff dderbyn hyfforddiant ar Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.	Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010	<p>Bydd Gweinyddwr y Ddeddf Iechyd ar gyfer Neuadd Tŷ Gwyn yn cynhyrchu pecyn hyfforddi ar y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru).</p> <p>Bydd Gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl yn trefnu dyddiadau hyfforddi pan fydd y staff clinigol perthnasol o fewn yr ysbyty'n derbyn yr hyfforddiant hwn.</p> <p>Pan fydd hynny'n berthnasol, bydd y ffurflen ymsefydlu'n cael ei diweddarau i sicrhau bod pob aelod o</p>	<p>Shaun Cooper</p> <p>Shaun Cooper</p> <p>Shaun Cooper</p>	<p>30/04/2017</p> <p>30/04/2017</p> <p>30/04/2017</p>

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Safon	Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			<p>staff newydd yn derbyn hyfforddiant a gwybodaeth mewn perthynas â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.</p> <p>Bydd Gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cysylltu ag Elysium Healthcare i ddatblygu modiwl e-ddysgu y gellir ei ychwanegu at ein hyfforddiant gorfodol.</p> <p>Bydd hyfforddiant ar Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 yn cael ei ddiweddarau bob blwyddyn.</p>	Shaun Cooper	<p>31/07/2017</p> <p>Yn parhau</p>
16	<p>Rhaid i staff gymryd camau i roi sylw i'r pryderon a nodwyd mewn dogfennau cleifion fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad. Mae'r meysydd hyn fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li><input type="checkbox"/> Gwella'r ffordd mae cofnodion yn cael eu trefnu a sicrhau bod yr holl wybodaeth allweddol gyfredol, bwysig, ddiweddar mewn perthynas</li> </ul>	<p>Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010; Safonau Gofynnol Cenedlaethol (Safon 8);</p>	<p>Ar hyn o bryd, mae Elysium Healthcare yn trosglwyddo Neuadd Tŷ Gwyn i system cofnodion iechyd electronig wedi'i diweddarau.</p> <p>Gyda chyflwyniad y system Carenotes a Path-Nav wedi'i diweddarau, bydd yr holl ddogfennau cleifion, gan gynnwys unrhyw asesiadau, yn cael eu storio'n</p>	Shaun Cooper	31/07/2017

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Safon	Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<p>â'r holl ddisgyblaethau, a chan yr holl weithwyr proffesiynol cysylltiedig, yn cael ei storio mewn un lle canolog, a'i bod yn hawdd cael mynediad ati. Rhaid i hyn gynnwys yr holl gynlluniau gofal ac asesiadau ac unrhyw nodiadau a chofnodion perthnasol eraill.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li><input type="checkbox"/> Rhaid cofnodi'r holl wybodaeth sylfaenol (gan gynnwys hanesion personol ac archwiliadau o gyflwr meddyliol) mewn digon o fanylder ac i safonau proffesiynol.</li> <li><input type="checkbox"/> Rhaid cwblhau asesiadau risg mewn digon o fanylder ac i safonau proffesiynol.</li> <li><input type="checkbox"/> Rhaid cwblhau asesiadau nyrsio mewn digon o fanylder ac i safonau proffesiynol.</li> <li><input type="checkbox"/> Rhaid cwblhau cynlluniau gofal mewn digon o fanylder ac i safonau proffesiynol. Unwaith mae cynlluniau gofal wedi cael eu hadolygu, dylent gael eu diweddarau er mwyn iddynt roi</li> </ul>	Rheoliadau 9 ac 15	<p>electronig.</p> <p>Bydd holl aelodau'r tîm amlddisgyblaethol yn gyfrifol am gofnodi adolygiadau gofal unigol a chyfarfodydd CTP/CPA ar y systemau, ac am roi mewnbwn sy'n cael ei ddogfennu i'r asesiadau a'r cyfarfodydd hynny.</p> <p>Bydd asesiadau cyn derbyn yn cael eu storio yn system Carenotes. Pan fydd claf yn cael ei dderbyn, bydd yr holl ddogfennau perthnasol yn cael eu cwblhau'n fanwl mewn modd proffesiynol, a bydd hyn yn cael ei archwilio gan reolwyr ward.</p> <p>Bydd y system Carenotes wedi'i diweddarau'n cynnig asesiadau risg wedi'u ffurfio, megis START, HCR20 ac Asesiad Risg Escort Baseline, yn ogystal â chynlluniau cymorth ymddygiad cadarnhaol. Bydd y gwaith o gwblhau'r dogfennau hyn yn cael ei archwilio trwy</p>	Shaun Cooper	31/07/2017

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Safon	Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<p>gwybodaeth glir am anghenion cyfredol y claf.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>□ Rhaid i staff sicrhau y gall cynlluniau gofal ddangos sut mae pob rhan o'r Mesur yn cael ei hasesu a'i hadolygu.</li> <li>□ Rhaid i staff fynd i'r afael â phroblemau TG parhaus, gan gynnwys diffyg cyfleusterau sganio effeithiol a'r anawsterau mae gweithwyr gofal iechyd yn eu profi wrth fewngofnodi i'r system electronig.</li> </ul> <p>Er bod systemau ar waith ar gyfer archwilio cynlluniau gofal, nid oeddent wedi datrys y problemau a nodwyd uchod. Felly, mae AGIC yn argymhell bod y systemau ar gyfer archwilio dogfennau cleifion yn cael eu hadolygu a bod system effeithiol yn cael ei rhoi ar waith ar gyfer y dyfodol.</p>		<p>ddangosfwrdd byw.</p> <p>Mae elfen Path-Nav Carenotes yn cynnig y cyfle i gleifion gyfrannu at eu cynlluniau gofal. Bydd cynlluniau gofal yn cael eu hadolygu o leiaf unwaith pob pedair wythnos, yn ystod adolygiad gofal unigol cleifion. Mae'r holl gynlluniau gofal yn system Path-Nav yn gysylltiedig â'r mesurau parth.</p> <p>Mae systemau TG wedi'u diweddarau'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod caledwedd TG ar gael, a bydd gan yr holl staff clinigol fynediad at system Carenotes a Path-Nav.</p> <p>Bydd dangosfwrdd cydymffurfiaeth Carenotes yn cael ei adolygu yn y cyfarfod llywodraethiant clinigol misol, lle bydd unrhyw themâu neu gamau ychwanegol yn cael eu trafod a'u gweithredu.</p>		
18	Dylai staff adolygu a rhoi sylw i'r agweddau ar yr amgylchedd a	Safonau Gofynnol	Bydd Rheolwr Gwasanaethau Cymorth yn cysylltu ag Adran	Shaun Cooper	

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Safon	Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<p>nodwyd yn yr adroddiad, yn benodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li><input type="checkbox"/> Rhannau o Dŷ Gwyn ac iddynt olwg flinedig</li> <li><input type="checkbox"/> Diffyg mannau preifat o fewn Skirrid View</li> <li>? Aseiad risg o'r gegin yn Nhŷ Pentwyn</li> </ul>	Cenedlaethol (Safon 12); Rheoliadau 26 a 40	<p>Ystadau Elysium Healthcare i roi sylw i'r problemau ynghylch yr amgylchedd a nodwyd yn yr adroddiad. Bydd hyn yn cynnwys y meysydd canlynol ac amserlenni dros dro i'w cwblhau:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Difrod dŵr o gwmpas y ffenestr do ar ail lawr Tŷ Gwyn</li> <li>2. Gwahanu clinig Tŷ Gwyn a'r dderbynfa i greu lle ar gyfer ystafell feddyginiaeth ar wahân</li> <li>3. Darparu ystafell wydr i roi lle ychwanegol ar gyfer gweithgareddau hamdden o fewn Skirrid View</li> <li>4. Cynnal aseiad risg o'r gegin yn Nhŷ Pentwyn</li> <li>5. Ailwampio'r gegin yn Nhŷ Pentwyn i wella'r drefn a lleihau risgiau ymhellach</li> </ol>		<p>31/05/2017</p> <p>31/05/2017</p> <p>30/09/2017</p> <p>31/03/2017</p> <p>30/04/2017</p>
20	Rhaid i'r darparwr cofrestredig	Safonau	Bydd Rheolwr Gwasanaethau	Shaun	31/05/2017



Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Safon	Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	adolygu'r man aml-ddefnydd yn Nhŷ Gwyn, a chymryd camau i sicrhau bod manau ar gyfer swyddogaethau clinigol a rheoli meddyginiaeth ar wahân i'r dderbynfa, i roi'r preifatrwydd a'r urddas priodol i gleifion.	Gofynnol Cenedlaethol (Safon 15); Rheoliadau 9 ac 15	Cymorth yn cysylltu ag Adran Ystadau Elysium Healthcare i ddatblygu cynllun i ddarparu ystafell feddyginiaeth ar wahân yn Nhŷ Gwyn.	Cooper	
21	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod tymheredd yr oergell yn y clinig yn Nhŷ Gwyn yn cael ei gadw o fewn yr ystod ddiogel, a rhaid iddo sicrhau bod system glir ar waith i fonitro tymereddau oergelloedd, gan gymryd camau pan fydd angen.	Safonau Gofynnol Cenedlaethol (Safon 15); Rheoliadau 9 ac 15	Bydd rheolwyr ward yn adolygu pob un o'r oergelloedd meddyginiaeth yn yr uned. Pan fydd hynny'n briodol, gwaredir ar synwryddion tymheredd nad ydynt yn cael eu defnyddio. Bydd y rheolwyr ward yn cynnal archwiliad wythnosol o bob ardal glinigol i sicrhau bod tymereddau'n cael eu cofnodi'n gywir a bod unrhyw anghysondebau'n cael eu datrys yn gyflym.	Shaun Cooper	31/03/2017
22	Rhaid i'r darparwr cofrestredig newydd sicrhau bod ei systemau TG yn cael eu rhoi ar waith cyn gynted ag y bo modd, er mwyn i staff	Safonau Gofynnol Cenedlaethol (Safon 19);	Mae Elysium Healthcare yn trosglwyddo'r holl systemau technoleg gwybodaeth o'n sefydliad blaenorol ni.  Bydd cyfarwyddwr yr ysbyty yn	Shaun	31/07/2017

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Safon	Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	drosglwyddo o'r hen systemau nad ydynt bellach yn gweithredu ar y lefel orau.	Rheoliad 9	<p>sicrhau bod y system gofal iechyd electronig Carenotes yn cael ei chwblhau o fewn yr amserlen y cytunwyd arni.</p> <p>Bydd cyfarwyddwr yr ysbyty yn sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant priodol ar ddefnyddio'r system hon.</p>	Cooper	
<b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>					
23	Mae angen adolygu a diweddarau holl bolisiau a gweithdrefnau'r ysbyty i sicrhau eu bod yn cwmpasu'r trefniadau newydd o dan Elysium Healthcare. Rhaid hysbysu staff am bolisiau a gweithdrefnau newydd.	Safonau Gofynnol Cenedlaethol (Safon 1); Rheoliad 9	<p>Bydd Elysium Healthcare yn parhau i ddatblygu a chyflwyno polisiau a gweithdrefnau newydd.</p> <p>Bydd cyfarwyddwr yr ysbyty yn nodi cydlynnydd a enwir o fewn tîm gweinyddol Neuadd Tŷ Gwyn i goladu holl bolisiau a gweithdrefnau newydd Elysium wrth iddynt gael eu cyhoeddi. Rhoddir copïau caled ym mhob uned a bydd staff yn derbyn hyfforddiant a chymorth i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r rhain.</p> <p>Bydd rheolwyr ward yn rhoi cymorth i staff o ddydd i ddydd wrth iddynt</p>	Shaun Cooper	31/07/2017

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Safon	Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			ddefnyddio'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn yn rhan o'u harfer bob dydd.		
24	<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig gynnal a dogfennu ymweliadau darparwr cofrestredig bob chwe mis yn unol â Rheoliad 28.</p> <p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig baratoi asesiad blynyddol sy'n cynnwys y wybodaeth a nodir yn Rheoliad 19 (3).</p>	Safonau Gofynnol Cenedlaethol (Safon 1); Rheoliadau 28 ac 19	<p>Cynhaliwyd ymweliad Rheoliad 28 gan Dîm Ansawdd Elysium Healthcare ar 30 a 31 Ionawr 2017. Trefnwyd hwn yn syth ar ôl arolygiad AGIC.</p> <p>Bydd rheolwr yr ysbyty yn sicrhau bod Elysium Healthcare yn cynnal ac yn dogfennu ymweliad Rheoliad 28 o leiaf unwaith bob chwe mis.</p> <p>Bydd cyfarwyddwr yr ysbyty yn cysylltu ag Elysium Healthcare a sicrhau bod y sefydliad yn cynnal asesiad blynyddol.</p>	Shaun Cooper	31/03/2017
24	Rhaid i Elysium Healthcare benodi Unigolyn Cyfrifol i gynnal dyletswyddau penodol fel y'u hamlinellir o dan y rheoliadau, a hysbysu AGIC am fanylion y penodiad newydd.	Safonau Gofynnol Cenedlaethol (Safon 1); Rheoliadau 13 ac 19	Penododd Elysium Healthcare Mr Steven Woolgar, Cyfarwyddwr Polisïau a Rheoliadau, yn Unigolyn Cyfrifol ar gyfer Neuadd Tŷ Gwyn.	Shaun Cooper	01/01/2017
25	Rhaid i'r Datganiad o Ddiben	Safonau	Bydd cyfarwyddwr yr ysbyty yn	Shaun	30/4/2017

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Safon	Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<p>gynnwys yr holl wybodaeth fel y'i rhestrir o dan Reoliad 6. Rhaid i Ddatganiad o Ddiben y gwasanaeth gael ei ddiweddarau i gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfeiriad at Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, sydd bellach wedi disodli'r Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol a ddyfynnwyd</li> <li>• Manylion rolau a chyfrifoldebau'r Unigolyn Cyfrifol o fewn y sefydliad (Atodlen 1, Pwynt 4)</li> <li>• Y trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion fel y'u hamlinellir yn Rheoliad 24 (Atodlen 1, Pwynt 10)</li> <li>• Y strwythur sefydliadol newydd (Atodlen 1, Pwynt 6)</li> </ul>	<p>Gofynnol Cenedlaethol (Safon 1); Rheoliad 6, Atodlen 1</p>	<p>adolygu a diweddarau Datganiad o Ddiben yr ysbyty, gan gynnwys y canlynol:</p> <p>Adolygu cynnwys y Datganiad o Ddiben a diweddarau unrhyw gyfeiriadau at y Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol i adlewyrchu'r ffaith eu bod wedi cael eu disodli gan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011</p> <p>Diweddarau gwybodaeth mewn perthynas â'r Unigolyn Cyfrifol a'i rolau a'i gyfrifoldebau</p> <p>Darparu gwybodaeth gynhwysfawr mewn perthynas â'r trefniadau o fewn Neuadd Tŷ Gwyn ar gyfer ymdrin â chwynion</p> <p>Cynnwys fersiwn gyfredol o'r strwythur sefydliadol o fewn y Datganiad o Ddiben</p>	<p>Cooper</p>	
25	<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod holl dystysgrifau AGIC yn cael eu harddangos ac mai'r</p>	<p>Safonau Gofynnol Cenedlaeth</p>	<p>Bydd holl dystysgrifau AGIC a leolir o fewn y gwasanaeth yn cael eu hadolygu gan Reolwr</p>	<p>Shaun Cooper</p>	<p>31/03/2017</p>

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Safon	Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	tystysgrifau a arddangosir yw'r fersiynau diweddaraf.	ol (Safon 1)	Gwasanaethau Cymorth i sicrhau mai nhw yw'r fersiynau diweddaraf.		
26	Rhaid i ffurflenni digwyddiadau gael eu cwblhau mewn digon o fanylder, ac mae'n rhaid i systemau priodol cael eu rhoi ar waith a'u defnyddio gan staff i ddangos y camau a gymerwyd.	Safonau Gofynnol Cenedlaeth ol (Safon 23); Rheoliadau 19 a 24	<p>Bydd y system adrodd IRIS wedi'i diweddarau ar gael i'r holl staff, a bydd yn cysylltu â Carenotes yn awtomatig, gan greu cofnod clinigol gyda rhif log. Bydd llais y system yn arwain staff trwy'r broses a sicrhau bod yr holl fanylion yn cael eu cwblhau cyn y gellir cadarnhau'r ffurflen. Yna, bydd y digwyddiad yn cael ei anfon at y rheolwr a'r Swyddog Iechyd a Diogelwch yn awtomatig, er mwyn iddynt ei lofnodi a chymryd unrhyw gamau o ganlyniadau i'r gwersi a ddysgwyd.</p> <p>Bydd yr holl ddigwyddiadau'n cael eu hadolygu bob wythnos gan y Tîm Uwch-reolwyr, lle bydd unrhyw themâu neu gamau ychwanegol yn cael eu nodi.</p> <p>Bydd yr holl ddigwyddiadau'n cael eu hadolygu yn y cyfarfod llywodraethiant clinigol misol.</p>	Shaun Cooper	31/07/2017

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Safon	Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
26	Rhaid i staff sicrhau bod ysgol staffio ar waith sy'n gywir, yn gyfredol, ac yn cofnodi'r trefniadau cyfredol ar gyfer darparu staff ar draws safle'r ysbyty pan fydd staff yn absennol. Rhaid i'r ysbyty adolygu a diwygio hyn yn ei Ddatganiad o Ddiben ac ailgyflwyno hwn i AGIC.	Safonau Gofynnol Cenedlaethol (Safon 24); Rheoliad 20	Bydd cyfarwyddwr yr ysbyty yn adolygu'r ysgol staffio gyfredol a'r prosesau sydd ar waith i reoli cyfnodau pan fydd staff yn absennol. Unwaith mae'r adolygiad hwn wedi cael ei gynnal, bydd Datganiad o Ddiben yr ysbyty yn cael ei ddiweddarau i ddiwygio unrhyw newidiadau. Wedyn bydd copi yn cael ei gyflwyno i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru iddynt ei adolygu.	Shaun Cooper	30/04/2017
27	Rhaid i staff rheoli sicrhau bod staff yn cael mynediad at oruchwyliaeth ffurfiol yn rheolaidd a bod hon yn cael ei chofnodi i ddangos cydymffurfiaeth.	Safonau Gofynnol Cenedlaethol (Safon 24); Rheoliad 20	Mae'r amserlen goruchwyllo staff wedi cael ei hadolygu a'i diweddarau. Bydd goruchwyliaeth reolaethol yn cael ei darparu gan y rheolwyr ward ar gyfer y staff nyrsio, a bydd staff nyrsio'n cynnig goruchwyliaeth i'r gweithwyr gofal iechyd sy'n cael eu dyrannu iddynt o leiaf unwaith y mis. Bydd goruchwyliaeth glinigol grŵp	Shaun Cooper	31/05/2017

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Safon	Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			<p>yn cael ei chynnig i'r holl staff clinigol unwaith yr wythnos gan y rheolwyr ward.</p> <p>Bydd goruchwyliaeth yn cael ei dogfennu a'i chofnodi mewn ffeiliau personél a bydd tystiolaeth yn cael ei rhoi ar gronfa ddata. Bydd hyn yn cael ei archwilio i sicrhau bod goruchwyliaeth yn cael ei chynnal yn rheolaidd.</p>		

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Shaun Cooper**

**Teitl:**

**Cyfarwyddwr yr Ysbyty**

**Dyddiad:**

**14 Mawrth 2017**